Cyflogi gweithwyr asiantaeth
10/03/2011

Annwyl

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 14 Chwefror pan wnaethoch ofyn,

*O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, hoffwn wneud cais am wybodaeth am nifer y staff (os o gwbl) a gyflogir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar sail dros dro drwy asiantaethau cyflogaeth.*

*I fod yn glir, rwy'n cyfeirio at gyflogi staff dros dro (staff 'temp') a gaiff eu cyflogi ar sail tymor byr, fel arfer, ond efallai am gyfnodau hirach, pan fydd cwmni recriwtio trydydd parti yn cael ei dalu am y staff y mae'n yn ei ddarparu.*

*Hoffwn wybod faint o bobl sydd wedi gweithio i'r Cynulliad yn y ffordd hon dros y ddwy flynedd diwethaf. Hoffwn wybod am ba mor hir y gwnaethant weithio, ym mha swyddi, beth oedd eu cyfrifoldebau a faint y cafodd yr asiantaeth ei dalu am y gweithwyr hynny.*

*Hoffwn gymharu'r staff hyn â staff a gyflogir yn uniongyrchol mewn swyddi tebyg ac felly hoffwn wneud cais i gael gwybod faint a dalwyd iddynt (efallai fel cyflog blynyddol neu unrhyw uned arall), eu swyddi a'u cyfrifoldebau.*

Gallaf eich hysbysu na chyflogwyd staff gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar sail dros dro gan asiantaethau cyflogaeth dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn recriwtio ei staff dros dro ei hun yn hytrach na thalu asiantaethau i ymgymryd â'r gwaith hwn.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm .

Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@wales.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Yn gywir

Alison Rutherford
Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru